## Darlith SIAN RHIANNON yn y Brifwyl yng Nghasnewydd

# Y Wasg Gymraeg yng Ngwent

PE BAI rhywun yn mynd ati i lunio graff yn dangos y nifer o lyfrau Cymraeg a gyhoeddwyd ers dyddiau'r gweisg cyntaf, fe fydden nhw'n darganfod, mae'n siwr, bod llinell y graff yn cynyddu'n raddol hyd at y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond yna'n llamu i'r entrychion tua chanol y ganrif honno. Y rheswm am y twf sydyn ar yr adeg yma fyddai'r twf aruthrol yn nifer ac yng nghynnyrch y gweisg yn sgîl y trawsnewid mawr a elwir y Chwyldro Diwydiannol.

"Ffrwydrad" yw disgrifiad un hanesydd o'r cynnydd, tra bod yr Athro Gruffydd John Williams, wrth egluro bywiogrwydd rhyfeddol y bywyd diwylliannol Cymraeg yn y cyfnod yn dweud,

> *Fe hyrwyddwyd hyn oll, yn rhyfedd iawn, gan y Chwyldro Diwydiannol. Ym Mlaenau Morgannwg ac yng Ngwent ... cafwyd bywyd diwylliannol Cymraeg mewn canolfannau poblog am y tro cyntaf yn holl hanes y genedl.*

A'r hyn sy'n allweddol, ac yn rhyfeddol efallai i'r rheiny ohonoch chi sy'n synied am Sir Fynwy fel dipyn o anialdir o ran y diwylliant Cymraeg, yw mai cymdeithas *Gymraeg* ei hiaith oedd y gymdeithas ddiwydiannol newydd a grewyd yma ar ddechrau'r ganrif ddiwetha'.

Yn ogystal, roedd hi, ar y cyfan, yn gymdeithas a oedd yn mwynhau llewyrch economaidd, felly, gyda phoblogaeth fawr Gymraeg ei hiaith, ac ychydig o arian sbâr, roedd yr amodau'n ffafriol ar gyfer datblygiad gwasg Gymraeg ffyniannus.

* * *

FEL Y gwyddoch chi, nid rhywbeth a ddigwyddodd dros nos oedd y Chwyldro Diwydiannol. Ers canol y ddeunawfed ganrif, bu'r broses o ddiwydianeiddio a threfoli'n cyflymu'n raddol. Eisoes bryd hynny roedd 'na rai canolfannau a oedd yn prysur ddenu poblogaeth. 'Roedd Pont-y-pŵl er enghraifft, yn dref fach lewyrchus lle roedd nifer o ddiwydiannau amrywiol yn ffynnu, gan gynnwys y diwydiant Japanware enwog.

Ar yr un pryd, yr oedd Pont-y-pŵl yn ganolfan *grefyddol* reit bwysig hefyd.

A gerllaw, yn Nhrosnant y sefydlwyd Academi gynta'r Bedyddwyr. 'Does ryfedd felly efallai, o gofio am brysurdeb y lle, mai yma yr agorwyd y wasg argraffu gynta' yn y sir gan y Bedyddiwr, y Parch Miles Harvey yn 1740. Prin ddwy flynedd barodd y fenter honno, ac ni sefydlwyd traddodiad o argraffu yn yr ardal hyd nes bod yma ddigon o bobl a digon o gyfalaf i fedru cynnal y bywyd diwylliannol bywiog a'r diwydiant cyhoeddi a ddaeth yn sgîl hynny.

Ni fu'n rhaid disgwyl yn hir oherwydd yn ystod nawdegau'r ddeunawfed ganrif a degawd cynta'r ganrif newydd digwyddodd nifer o ddatblygiadau a yrrodd y Chwyldro Diwydiannol i'w lawn dwf.

Yn y blynyddoedd hyn y sefydlwyd y gweithfeydd haearn mawr ar hyd y Blaeneudir. O Rymni i Flaenafon roedd 'da chi res o weithfeydd haearn a fyddai cyn bo hir yn cynhyrchu haearn i'w allforio i bedwar ban byd.

Rhwng 1801 a 1841 roedd poblogaeth Sir Fynwy'n cynyddu'n gynt na phoblogaeth unrhyw sir arall yng Nghymru a Lloegr, a gorllewin y sir yn cael ei thrawsnewid o fod yn ardal o weundir anghysbell a thyddynnod gwasgaredig i fod yn ganolfan i ddiwydiant byd-eang, yn frith o ffwrneisiau, lefelau a phyllau, ac yn wead o gamlesi, heolydd a rheilffyrdd.

Er mwyn rhoi rhyw amgyffred i chi o faint y twf yn y blynyddoedd hyn, mi sonia' i'n fyr am Is-ardal Gofrestru'r Fenni a oedd yn cynnwys plwyfi eang Bedwellte ac Aberystruth - hynny ydi, gweithfeydd Rhymni, Tredegar, Cendl, Glynebwy, cymoedd Sirhywi ac Ebwy draw hyd at y Blaenau a Nant-y-glo.

Cynyddodd poblogaeth yr ardal hon o ryw ddeng mil o bobl ar ddechrau'r ganrif i dros naw deg o filoedd yn 1841, a chafwyd twf cyffelyb yn Is-ardaloedd Cofrestru Pont-y-pŵl a Chasnewydd.

* * *

MEWNFUDO oedd yn bennaf gyfrifol am y twf. Yn 1841 roedd dros hanner cant y cant poblogaeth plwyfi Bedwellte ac Aberystruth wedi'u geni y tu allan i'r sir.

Digon yw dweud mai o siroedd Morgannwg a Brycheiniog, Caerfyrddin, Aberteifi, Trefaldwyn a gogledd Penfro y deuai'r mwyafrif yn y blynyddoedd cynnar - Cymry Cymraeg yn tyrru i'r 'gwithe' i geisio gwell safon byw. Ac ar y cyfan, chawson nhw mo'u siomi.

Wrth gwrs, roedd bywyd y gweithie yn ansefydlog ac yn ansicr ar lawer cyfri, - er enghraifft, byddai dirwasgiad sydyn yn creu diweithdra a thoriadau cyflog difrifol, amodau byw a gweithio yn aml yn wael, damweiniau erchyll yn rhan o fywyd bob dydd a chyfran y marwolaethau ymhlith plant yn frawychus o uchel - ond er gwaetha hyn i gyd, o ran safon byw, os cymharwch chi safon byw gweithiwr harn yn Sir Fynwy a llafurwr amaethyddol yn sir Gâr yn y cyfnod fe welwch chi pam yr oedd pobl yn tyrru i'r fath le.

Tra oedd y gweithfeydd yn ffynnu roedd cyflogau'n uchel, a'r gweithwyr crefftus o leia', fel y pwdlwyr er enghraifft, yn ennill yn dda. Ar yr adegau hyn fe fyddai gan gyfran o'r dosbarth gweithiol arian i wario ar 'foethau bychain' a'r rheini'n cynnwys ambell bapur newydd neu gylchgrawn.

* * *

FFACTOR arall a roddodd hwb mawr i dwf y wasg Gymraeg yn yr ardal yn y blynyddoedd hyn oedd y cynnydd a fu yn nifer y capeli Anghydffurfiol Cymraeg o bob enwad a sefydlwyd yn sgîl y mewnfudo.

I raddau helaeth daeth y bobl â'u crefydd i'w canlyn, ac erbyn canol y ganrif, roedd ardal ddiwydiannol sir Fynwy yn ardal ddeniadol i lawer o weinidogion o rannau eraill o Gymru.

Y Parch Robert Ellis (Cynddelw), er enghraifft, yn cyfadde' mai'r rhagolygon o gael cynulleidfa fawr, capel hardd a chyflog sylweddol a'i denodd e' i dderbyn galwad gan y Bedyddwyr yng Ngharmel, Sirhywi yn 1847.

Ac er mwyn gwasanaethu anghenion Anghydffurfiaeth y sefydlwyd nifer o'r gweisg cyntaf. Dyma'r cyfnod pan oedd y gwahanol enwadau yn cadarnhau eu cred a'u cyffes, a daeth y wasg yn fforwm i'r dadlau mawr - y trochwyr a'r taenellwyr, yr Arminiaid a'r Sosiniaid, a hyd yn oed y Mormoniaid - fe fydden nhw i gyd yn gwyntyllu'u safbwynt drwy gyfrwng y wasg newydd.

Ond yn bwysicaf oll efallai o ran creu bywyd diwylliannol a gwasg Gymraeg fywiog, oedd y ffaith fod y twf diwydiannol wedi cy-ddigwydd â chyfnod pan gafwyd adfywiad mewn diddordeb yn yr iaith Gymraeg a'i llenyddiaeth yn sgîl twf mudiad y Cymreigyddion a phoblogeiddio'r Eisteddfod.

* * *

SEFYDLWYD Cymdeithas Gymreigyddol gyntaf Sir Fynwy yn Nhredegar yn 1818, flwyddyn cyn yr Eisteddfod Daleithiol gyntaf. Dyw hi ddim yn gyd-ddigwyddiad iddi ddechrau ar yr un adeg ag yr ail-ymddangosodd y cylchgrawn *Seren Gomer* yn rheolaidd fel cyhoeddiad pythefnosol, oherwydd yn ogystal â bod yn gylchgrawn i enwad y Bedyddwyr, roedd *Seren Gomer* hefyd yn 'newyddiadur' ac yn offeryn i ledaenu gwybodaeth gyffredinol a syniadau gwladgarol. 'Meibion Gomer' oedd y Cymreigyddion, sef y gwir Gymry, coleddwyr yr iaith Gymraeg.

Yn y blynyddoedd hyn roedd rhai o aelodau cymdeithas Gymreigyddol Tredegar yn gyfranwyr cyson i'r cylchgrawn. Yn eu plith, y Parch J.P. Davies (Mab Dewi Ddu), gweinidog Silo, capel y Bedyddwyr yn y dref, gŵr sy'n adnabyddus am iddo gyflwyno syniadau'r diwinydd Andrew Fuller i Gymru.

John Davies (Brychan), - cymeriad a hanner - a John Bevan (Gwentydd), Bedyddiwr a meistr y gofaint yng ngwaith haearn Sirhywi a ddaeth, mewn cyfnod diweddarach, yn athro barddol ar Myfyr Wyn a'i gyfeillion llengar, a'r cyfnod hwnnw yn gyfnod pan ddywedwyd fod 'pob Sheet haearn yng nghyffiniau gefail Sirhywi yn wyn o linellau cywyddau'. Dyna'r math o gymdeithas a sefydlwyd.

Bydai'r criw bychan hwn o Gymreigyddion yn cyfarfod i areithio ac i drafod ac i lenydda, a'u bwriad hefyd oedd meithrin diddordeb gwŷr ifainc yr ardal mewn llenyddiaeth a gwybodaeth gyffredinol.

Cynhaliwyd dosbarthiadau, a *Seren Gomer* mae'n debyg, yn destun trafod y sesiynau hyn. Un tro pan na chyrhaeddodd un o rifynnau'r cylchgrawn dyma J.P. Davies yn sgrifennu at y golygydd i ddweud,

> *Bu galar trwm ymhlith derbynwyr eich Seren fuddiol yn yr ardal hon oherwydd yr aflwyddiannau a ddigwyddodd yn nhrosglwyddiad eich seithfed rhifyn.*

Wn i ddim beth oedd wedi cawlio'r drefn ddosbarthu ond mae'n amlwg fod Cymreigyddion brwdfrydig Tredegar wedi'u siomi. Os darllenwch chi'r *Seren* ar gyfer dauddegau'r ganrif ddiwetha' fe welwch chi fod cyfran sylweddol o'r cyfranwyr o Sir Fynwy.

Yn y tridagau y cafwyd twf mawr mudiad y Cymreigyddion, ac fe wnaeth Seren Gomer a'r cylchoedd bychain o wŷr llengar a oedd yn cyfarfod mewn amryw o ardaloedd yn Sir Fynwy dipyn i baratoi'r ffordd ar gyfer y twf hwnnw ym mlynyddoedd cynnar y gweithfeydd.

* * *

CYLCHGRAWN y Bedyddwyr oedd Seren Gomer, ac yn wir enwad y Bedyddwyr oedd yr enwad cryfa' yn yr ardal. Er mwyn gwasanaethu'r enwad hwn y sefydlwyd y gweisg cyntaf yma. Tua 1820 agorwyd gwasg yn y Fenni gan y Parch James Hiley Morgan - cofier fod Academi'r Bedyddwyr wedi'i sefydlu yn y dref ers 1808.

Yr un oedd bwriad y Parch John Jenkins wrth sefydlu ei wasg yntau ym Maesycwmwr yn 1827. Un o Langynidr, dros y ffin yn Sir Frycheiniog oedd John Jenkins, neu Sion Shincyn, yn wreiddiol, ac yn 1808 daeth yn weinidog ar gapel Hengoed ar lan orllewinol